

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk

# Spectrum

Lansiwyd Spectrum Technologies PLC yn 1989 ac mae'n arwain y byd ym maes dulliau o farcio gwifrau gan ddefnyddio laser. Cafodd ei lansio fel is-gwmni wedi i British Aerospace (BAE Systems) lunio'r ddyfais uwch-fioled cyntaf erioed ar gyfer marcio gwifrau.

Ewrop & Chymru: Buddsoddi yn eich dyfodol
Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop
Europe & Wales: Investing in your future
European Regional Development Fund

Sefydlwyd Spectrum i greu dulliau marcio, mesur a thorri arbenigol. Fe'i sefydlwyd mewn ymateb uniongyrchol i'r pryderon diogelwch a oedd yn bodoli ynghylch y dulliau traddodiadol o argraffu sych (hot-stamping) a ddefnyddiwyd i adnabod y milltiroedd o wifrau trydan a ddefnyddir ar awyrennau. Wedi i'r rheolwyr brynu'r cwmni, datblygwyd y $3^{\text{edd}}$ genhedlaeth o'r ddyfais marcio. Hyd yma, gwerthwyd gwerth £10 miliwn o'r ddyfais gan arwain at ehangu pellach. Erbyn 2006, enillodd y ddyfais Wobr y Frenhines deirgwaith am allforio ac agorwyd ffatri 20,000 troedfedd sgwâr ym Mhen-y-bont ar Ogwr.

Yn sgil arian SMARTCymru a gafodd y cwmni drwy Raglen Arloesi ar gyfer Busnes Llywodraeth Cymru, cyflwynwyd y $4^{\text{edd}}$ a'r $5^{\text{ed}}$ genhedlaeth o'r ddyfais marcio, a'r ddyfais marcio gwifrau awyrennau gyflymaf yn y byd gan ragori ar ei gystadleuwyr. O ganlyniad, mae'r cwmni bellach yn cyflogi 68 o bobl yng Nghymru a thua 20 o bobl yn yr UDA, Mecsico, yr Eidal, Tsieina a'r India. Mae trosiant y cwmni tua £8 miliwn y flwyddyn, ac mae'n gwasanaethu cwsmeriaid megis Boeing, Airbus ac Agusta.

Yn 2013, bydd Spectrum yn llunio adroddiad ar hyfywedd masnachol ei gydsyniad diweddaraf, ar ôl cael arian ychwanegol. Mae'r cwmni bellach yn bwriadu defnyddio'r dechnoleg laser, a ddatblygwyd am y tro cyntaf yn BAE Filton ym Mryste, ar gyfer cydrannau awyrennau hefyd.

Dywedodd Dr Peter Dickinson, y sylfaenydd a'r cyfarwyddwr: "Heb yr arian a gawsom gan Lywodraeth Cymru a thrwy gynlluniau tebyg, byddai Spectrum Technologies Ltd wedi gorfod aros tan y flwyddyn nesaf neu'r flwyddyn wedi hynny cyn camu ymlaen gyda'r datblygiadau sydd ar y gweill. Erbyn hynny, byddai ein cystadleuwyr yn y maes yn eu cynhyrchu hefyd. Mae'r gefnogaeth wedi bod o gymorth i gyflymu gwaith ein rhaglenni datblygu gan alluogi'r cwmni i dyfu'n gynt ac achub y blaen. Am hynny, mae'r cwmni'n arwain y byd ym maes technoleg marcio laser."

Busnes Cymru
Business Wales

I wybod rhagor am gyllid a chymorth gan Lywodraeth Cymru:

**Ebost:** businesssupport@wales.gsi.gov.uk

**Gwefan:** busnes.cymru.gov.uk

**Ffôn:** 03000 6 03000

arloesi

WG17397 / © Hawlfraint y Goron 2014